3-11 **oed**

Rhan o Fenter yr Ifanc

Fframwaith Cynllunio

Addysg Ariannol **3-11 oed**

Gwario, cynilo, rhoi, cael?

Beth bynnag rydym ni'n ei wneud ag arian, mae angen i ni ei reoli'n dda. Mae rhaglen drawsgwricwlaidd, gynlluniedig o addysg ariannol, yn gallu helpu rhoi'r hyder, y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar bobl ifanc i reoli eu harian, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym ni wedi darganfod bod plant, ar gyfartaledd, yn dechrau cael arian poced pan fyddan nhw'n saith oed, yn berchen ar eu ffôn symudol eu hunain pan fyddant yn wyth oed, ac yn prynu eitemau ar-lein yn 10 oed, a bod un o bob pump o blant wedi defnyddio cerdyn credyd neu gerdyn debyd eu rhieni neu'u brodyr/chwiorydd hŷn i brynu'r eitemau hyn.

Gallant agor cyfrif banc a chael cerdyn debyd yn 11 oed. Pan fyddan nhw'n 18 oed, gallant wneud cais am gerdyn credyd neu fenthyciad, a chyn iddynt adael yr ysgol, rhaid iddyn nhw wneud penderfyniadau tyngedfennol am swyddi, benthyciadau myfyrwyr, a byw yn annibynnol.

Mae'r angen i bobl ifanc ddatblygu'r sgiliau i ennill eu harian, a gofalu am eu harian, yn gryfach nag erioed.

Y Fframwaith Cynllunio 3-11

Nod y fframwaith hwn yw cefnogi cynllunio, addysgu a dilyniant addysg ariannol trwy nodi meysydd allweddol gwybodaeth, sgiliau ac agweddau ariannol, ar draws pedair thema graidd, sef:

- sut i reoli arian;
- bod yn ddefnyddiwr beirniadol;
- rheoli risgiau ac emosiynau yn gysylltiedig ag arian;
- deall rôl bwysig arian yn ein bywydau.

Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio i'ch helpu i gyflwyno addysg ariannol yn hyblyg ar draws eich cwricwlwm. Nid yw wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio'n llym. Mae gosod yr ystodau oedran ochr wrth ochr yn dangos dilyniant o 3-11 oed. Fodd bynnag, gallai fod angen i chi ddefnyddio syniadau o oedrannau eraill yn dibynnu ar anghenion eich disgyblion.

Mae Fframwaith Cynllunio 11-19 hefyd, sydd wedi'i gynllunio yn yr un ffordd yn union â'r fframwaith 3-11 hwn, ac fe'i defnyddir mewn ffyrdd tebyg iawn gyda phobl ifanc 11 oed ac yn hŷn.

Ein gweledigaeth yw cynorthwyo ysgolion ag ymgorffori addysg ariannol o ansawdd uchel yn eu haddysgu a'u dysgu, gan felly wneud newid cadarnhaol i blant a phobl ifanc mewn ffordd gynaliadwy.

Ceir mwy o wybodaeth dros y dudalen am sut gellir defnyddio'r fframwaith hwn, a rhai o'r gwasanaethau sydd ar gael i helpu i chi gynllunio a chyflwyno addysg ariannol mewn ffordd effeithiol a difyr.

Gallwch chi lawrlwytho'r Fframweithiau Addysg Ariannol yn **www.young-money.org.uk/frameworks**

Sut i ddefnyddio'r fframwaith hwn

Gellir defnyddio'r Fframwaith Cynllunio 3-11 mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft i:

- **Gael amcan o fannau cychwyn disgyblion ar gyfer addysg ariannol.**
  Mae defnyddio'r testunau o'r fframwaith i gyflwyno gweithgarwch llais y disgybl yn ffordd effeithiol iawn o gael amcan o'u mannau cychwyn ar gyfer addysg ariannol. Gellir defnyddio deilliannau llais y disgybl ochr yn ochr â mewnbwn athrawon i ddatblygu rhaglen gydlynus o addysg ariannol sy'n diwallu anghenion disgyblion ar draws pob grŵp blwyddyn yn y ffordd orau.

- **Nodi deilliannau dysgu ar gyfer gwersi a chynlluniau gwaith.**
  Mae'r fframwaith yn darparu amcanion dysgu priodol, yn gysylltiedig ag oedran, y gellir eu trosglwyddo'n uniongyrchol neu'u diwygio i weddu i'ch anghenion. Mae mesur p'un a yw disgyblion wedi bodloni'r deilliannau dysgu erbyn diwedd gwers yn gallu ffurfio rhan o'ch strategaeth asesu hefyd.

- **Mapio'r ddarpariaeth bresennol a nodi bylchau.**
  Os ydych chi'n cyflwyno addysg ariannol am y tro cyntaf neu eisiau cael darlun cywir o ble caiff ei chyflwyno yn eich ysgol, gellir defnyddio'r fframwaith fel offeryn archwilio. Gellir defnyddio'r Fframwaith Cynllunio i nodi ble caiff addysg ariannol bresennol ei chyflwyno, a gellid ei choladu mewn un fframwaith, gan roi 'cipolwg' defnyddiol ar ddarpariaeth bresennol eich ysgol.

- **Cynllunio ar gyfer dilyniant rhwng oedrannau a chyfnodau allweddol.**
  Mae'r fframwaith yn darparu trosolwg cyfunol o addysg ariannol yn y sector cynradd, ac mae hyn yn helpu sicrhau bod dilyniant yn yr addysg ariannol yn cael ei gyflwyno o un grŵp blwyddyn i'r nesaf.

Wrth ystyried dilyniant ar ôl y sector cynradd, efallai y byddwch yn dymuno edrych ar y Fframwaith Cynllunio 11-19 hefyd. Mae rhai athrawon wedi gweld ei bod yn ddefnyddiol dechrau cyflwyno eu disgyblion cynradd hŷn i destunau yn y fframwaith 11-19 fel rhan o'r broses bontio.

Fframwaith Cynllunio **Addysg Ariannol 3-11 oed**

3-5 oed

Arian yr Ifanc
Rhan o Fenter yr Ifanc

Sut i reoli arian

ADNABOD DARNAU ARIAN		
Rydw i'n gwybod bod gwahanol ddarnau arian ac arian papur.	Rydw i'n gallu disgrifio ac enwi gwahanol ddarnau arian ac arian papur.	Rydw i'n dechrau deall y gallai fod gwahanol werthoedd i ddarnau arian ac arian papur.

Bod yn ddefnyddiwr beirniadol

DEWISIADAU AM WARIO		
Rydw i'n gwybod fy mod i'n gallu gwario arian mewn gwahanol leoedd ac ar wahanol bethau, e.e. prynu teganau neu fynd ar y bws, a bod y rhain yn gallu costio symiau gwahanol.	Rydw i'n gallu gwneud dewisiadau syml am sut i wario fy arian.	Rydw i'n dechrau deall y gallai pobl wneud dewisiadau gwahanol am sut i wario arian.
DEWISIADAU AM GYNILO		
Rydw i'n gwybod fy mod i'n gallu cynilo ychydig o'm harian i'w ddefnyddio yn ddiweddarach, e.e. mewn cadw-mi-gei.	Rydw i'n gallu gwneud dewisiadau syml am gynilo ychydig o'm harian.	Rydw i'n dechrau deall y gallai pobl wneud dewisiadau gwahanol am gynilo eu harian.

Rheoli risgiau ac emosiynau yn gysylltiedig ag arian

CADW ARIAN YN DDIOGEL		
Rydw i'n gwybod bod angen i fi ofalu am fy arian.	Rydw i'n gallu dewis lle diogel i gadw fy arian, e.e. cadw-mi-gei, pwrs.	Rydw i'n deall bod gwerth i arian, a bod angen gofalu amdano.
TEIMLADAU AM ARIAN		
Rydw i'n gwybod bod arian yn gallu gwneud i fi gael gwahanol deimladau, e.e. bod yn hapus neu'n drist.	Rydw i'n gallu disgrifio'r ffordd y mae arian yn gwneud i fi deimlo.	Rydw i'n gallu deall y gallai pobl eraill fod â theimladau sy'n wahanol i'm teimladau i am arian.

Deall rôl bwysig arian yn ein bywydau

DEFNYDDIO ARIAN		
Rydw i'n dechrau gwybod y bydd angen i fi ddefnyddio arian mewn gwahanol ffyrdd.	Rydw i'n gallu enwi gwahanol ffyrdd y gellir defnyddio arian, e.e. cynilo, gwario, rhoi.	Rydw i'n dechrau deall pam mae arian yn cael ei ddefnyddio.

GEIRFA:
Darn(au) arian, arian papur, punt (punnoedd), ceiniog, arian, siop, talu, gwario, cynilo, prynu, rhoi, diogel, cadw-mi-gei, pwrs.

Allwedd i ddeilliannau dysgu: Gwybodaeth | Sgiliau | Agweddau

Fframwaith Cynllunio **Addysg Ariannol 3-11 oed**

5-7 oed

Arian yr Ifanc
Rhan o Fenter yr Ifanc

Sut i reoli arian

GWERTH DARNAU ARIAN AC ARIAN PAPUR		
Rydw i'n gwybod gwerth y darnau arian a'r arian papur rydw i'n eu defnyddio ac yn gallu eu rhoi yn y drefn gywir o ran eu gwerth.	Rydw i'n gallu adnabod a dewis y gwerth cywir o ddarnau arian ac arian papur i'w defnyddio, a chyfrifo newid.	Rydw i'n gallu deall pwysigrwydd aros am newid, a gwirio'r newid.
CADW GOLWG AR ARIAN		
Rydw i'n gwybod bod ffyrdd o gadw golwg ar fy arian a'r hyn rydw i'n ei wario, e.e. cadw dyddiadur gwario.	Rydw i'n gallu cadw cofnodion ariannol, e.e. cofnodi'r swm sydd wedi'i gynilo mewn cadw-mi-gei, a sut mae wedi cael ei ddefnyddio.	Rydw i'n dechrau deall y gallai fy arian ddod i ben yn annisgwyl os nad ydw i'n cadw golwg arno.

Bod yn ddefnyddiwr beirniadol

DEWISIADAU AM GYNILO A GWARIO		
Rydw i'n gwybod bod gen i ddewisiadau am gynilo a gwario fy arian.	Rydw i'n gallu gwneud cynllun syml ar gyfer fy newisiadau am gynilo a gwario, a chadw ato.	Rydw i'n dechrau deall y gallai pobl wneud dewisiadau gwahanol am sut i gynilo a gwario arian.
PETHAU SYDD EU HANGEN A'U HEISIAU		
Rydw i'n gwybod y gallai'r hyn sydd ei angen arnaf i, a'r pethau sydd eu heisiau arnaf i, fod yn wahanol i rai pobl eraill.	Rydw i'n gallu esbonio'r gwahaniaeth rhwng rhywbeth sydd ei angen arnaf i, a rhywbeth y gallai fod ei eisiau arnaf i.	Rydw i'n dechrau deall nad ydym ni efallai bob amser yn gallu cael y pethau sydd eu heisiau arnom ni.

Rheoli risgiau ac emosiynau yn gysylltiedig ag arian

GOFALU AM FY ARIAN		
Rydw i'n gwybod fy mod i'n gallu cadw arian mewn gwahanol leoedd, a bod rhai lleoedd yn fwy diogel nag eraill, e.e. mewn cadw-mi-gei neu fanc.	Rydw i'n gallu dewis lle addas i gadw fy arian yn ddiogel, ac esbonio fy newis.	Rydw i'n dechrau deall canlyniadau colli arian neu gael arian wedi'i ddwyn, a sut gallai hynny wneud i mi deimlo.
CYNILO ARIAN		
Rydw i'n gwybod fy mod i'n gallu cynilo arian i'w ddefnyddio yn ddiweddarach, yn hytrach na'i wario i gyd nawr.	Rydw i'n gallu disgrifio pam y gallwn i fod eisiau cynilo fy arian, e.e. ar gyfer rhywbeth arbennig neu i brynu anrheg i rywun arall, a ble gallwn i gynilo'r arian, e.e. arian parod gartref, mewn cyfrif cynilion.	Rydw i'n dechrau deall pam mae cynilo arian yn gallu bod yn bwysig a sut mae'n gwneud i mi deimlo.

Deall rôl bwysig arian yn ein bywydau

O BLE MAE FY ARIAN YN DOD		
Rydw i'n gwybod bod fy arian yn dod i fi mewn gwahanol ffyrdd, e.e. ennill arian trwy weithio, ennill arian, cael benthyg arian, dod o hyd i arian, arian yn cael ei roi i mi.	Rydw i'n gallu disgrifio o ble mae fy arian yn dod.	Rydw i'n deall y bydd arian yn dod i mi mewn ffyrdd eraill yn y dyfodol, e.e. cael fy nhalu am weithio.
SUT CAFODD ARIAN EI DDATBLYGU		
Rydw i'n gwybod bod arian wedi datblygu mewn llawer o ffurfiau gwahanol trwy gydol hanes, e.e. cyfnewid, darnau arian, arian papur, ac ati.	Rydw i'n gallu disgrifio'r ffurfiau arian niferus heddiw, a'r ffyrdd amrywiol y gellir defnyddio arian i dalu am bethau.	Rydw i'n deall y bydd arian yn parhau i ddatblygu mewn ffurfiau amrywiol yn y dyfodol.

GEIRFA:
£ a cheiniog, cost, pris, gwerthu, cyfanswm, dewis, cwsmer, banc, gwerth, angen, eisiau, ennill trwy weithio, ennill, arian poced, tasgau, gwaith, cyfnewid, newid.

Allwedd i ddeilliannau dysgu: Gwybodaeth | Sgiliau | Agweddau

Fframwaith Cynllunio **Addysg Ariannol 3-11 oed**

7-9 oed

Arian yr Ifanc
Rhan o Fenter yr Ifanc

Sut i reoli arian

FFYRDD O DALU		
Rydw i'n gwybod mai un ffordd yn unig yw arian parod o dalu am nwyddau a gwasanaethau.	Rydw i'n gallu disgrifio ffyrdd o dalu nad ydyn nhw'n cynnwys arian parod, e.e. cardiau debyd, cardiau credyd, taliadau ar-lein.	Rydw i'n deall y rhesymau dros ddefnyddio gwahanol ffurfiau talu, gan gynnwys y gwahaniaeth rhwng cardiau debyd a chardiau credyd.
CADW COFNODION		
Rydw i'n gwybod am ychydig o ffyrdd gwahanol o gadw golwg ar fy arian, e.e. cyfrif, cadw derbynebau.	Rydw i'n gallu cynllunio a chadw golwg ar fy nghynilion a'm gwario trwy gadw cofnodion syml.	Rydw i'n deall pam mae'n bwysig cadw golwg ar fy nghynilion a'm gwario.

Bod yn ddefnyddiwr beirniadol

PENDERFYNIADAU AM GYNILO A GWARIO		
Rydw i'n gwybod bod y penderfyniadau rydw i'n eu gwneud am gynilo a gwario fy arian yn gallu cael eu dylanwadu gan bobl eraill, ac effeithio arnyn nhw.	Rydw i'n gallu ystyried syniadau a barn pobl eraill wrth wneud penderfyniadau am gynilo a gwario fy arian.	Rydw i'n dechrau deall bod gwahanol agweddau gan wahanol bobl at gynilo a gwario arian, a gwahanol deimladau am hyn.
BLAENORIAETHAU GWARIO A CHYNILO		
Rydw i'n gwybod sut i flaenoriaethu rhwng pethau sydd eu hangen a phethau sydd eu heisiau.	Rydw i'n gallu gwneud penderfyniadau am wario yn seiliedig ar fy mlaenoriaethau, y pethau sydd eu hangen arnaf i, a'r pethau sydd eu heisiau arnaf i.	Rydw i'n deall nad yw hi efallai'n bosibl cael popeth rydw i ei eisiau ar unwaith, os o gwbl, ac y gallai fod angen i mi gynilo arian am bethau rydw i eisiau eu prynu yn y dyfodol.

Rheoli risgiau ac emosiynau yn gysylltiedig ag arian

DEFNYDDIO CYFRIFON I GADW ARIAN YN DDIOGEL A CHYNILO		
Rydw i'n gwybod fy mod i'n gallu cadw fy arian mewn cyfrif banc safonol a/neu gyfrif banc ar-lein, a manteision posibl hyn.	Rydw i'n gallu esbonio pam y gallen i ddefnyddio cyfrif, e.e. banc, cymdeithas adeiladu, undeb credyd.	Rydw i'n deall bod rheoli arian yn gallu bod yn gymhleth, a bod defnyddio cyfrif yn un ffordd o'i gwneud yn haws, e.e. cael diweddariadau a chyfriflenni.
RHOI BENTHYG A CHAEL BENTHYG		
Rydw i'n gwybod os nad oes gen i ddigon o arian y gallwn i gael y dewis i gael benthyg arian, ond y bydd rhaid i mi dalu'r arian yn ôl, os byddaf yn cael ei fenthyg.	Rydw i'n gallu esbonio pam y gallen i fod eisiau cael benthyg arian, a sut gallai hyn wneud i fi deimlo.	Rydw i'n dechrau deall fy mod i'n gallu talu am bethau heb gael digon o arian a bod canlyniadau i hyn, e.e. gallwn i fynd i ddyled.

Deall rôl bwysig arian yn ein bywydau

ENNILL ARIAN		
Rydw i'n gwybod bod amrywiaeth o swyddi – â thâl, a heb dâl.	Rydw i'n gallu disgrifio gwahanol swyddi y gallen i eu gwneud i ennill arian pan fyddaf i'n hŷn.	Rydw i'n deall y rhesymau pam mae rhai swyddi'n talu mwy na swyddi eraill.
HELPU POBL ERAILL		
Rydw i'n gwybod pam mae'n bwysig helpu pobl eraill, e.e. trwy gyfrannu at elusen.	Rydw i'n gallu esbonio sut mae fy mhenderfyniadau am wario yn gallu helpu cefnogi pobl eraill, e.e. prynu cynhyrchion masnach deg, defnyddio siopau elusen.	Rydw i'n deall pam y gallen i fod eisiau, neu ddim eisiau, rhoi arian i helpu pobl eraill.

GEIRFA:
Arian parod, cardiau, taliad electronig, tocyn anrheg, taleb, siec, arian yn ôl, cyfanswm rhediad, amcangyfrif, cofnod, derbynneb, hanfodol, rhywbeth moethus, blaenoriaethau, cyfrif, cymdeithas adeiladu, undeb credyd, elusen, cyfraniad, masnach deg, swydd, tâl, heb dâl, rhoi benthyg, benthyciad, dyled, cynllunio, dyledus, cael benthyg.

Allwedd i ddeilliannau dysgu: Gwybodaeth | Sgiliau | Agweddau

Fframwaith Cynllunio **Addysg Ariannol 3-11 oed**

9-11 oed

Arian yr Ifanc
Rhan o Fenter yr Ifanc

Sut i reoli arian

ARIAN CYFRED TRAMOR		
Rydw i'n gwybod bod gwahanol ffurfiau o arian yn cael eu defnyddio mewn gwledydd eraill.	Rydw i'n gallu gwneud cyfrifiadau syml yn seiliedig ar gyfraddau cyfnewid.	Rydw i'n deall pam mae'n bwysig deall mathau eraill o arian cyfred, yn enwedig pan fyddaf i'n ymweld â gwlad arall.
COFNODION ARIANNOL SYML		
Rydw i'n gwybod bod angen i fi wirio a chadw gwybodaeth ariannol sylfaenol, e.e. derbynebau, biliau, cyfriflenni banc.	Rydw i'n gallu defnyddio gwybodaeth ariannol syml i gynllunio a rheoli cyllideb sylfaenol, a chadw golwg ar fy ngwario.	Rydw i'n deall bod cynllunio fy ngwario yn helpu i mi gadw rheolaeth ar fy arian.

Bod yn ddefnyddiwr beirniadol

DYLANWADAU AR GYNILO A GWARIO		
Rydw i'n gwybod bod hysbysebu yn cael ei ddefnyddio i'm perswadio sut i wario fy arian.	Rydw i'n gallu adnabod pan fydd fy newisiadau am arian yn cael eu dylanwadu gan hysbysebion.	Rydw i'n deall pam y dylem ni gyd fod yn ddefnyddwyr beirniadol, gan feddwl yn ofalus am sut rydym ni'n defnyddio ein harian.
GWERTH AM ARIAN		
Rydw i'n gwybod bod rhai pethau yn cynnig gwerth gwell am arian na phethau eraill.	Rydw i'n gallu gwneud cymariaethau rhwng prisiau wrth benderfynu beth sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian, gan gynnwys am wasanaethau fel trydan, ffonau a'r rhyngrwyd.	Rydw i'n deall pam y bydd gwneud penderfyniadau gwybodus yn fy helpu i wneud y gorau o'r arian sydd gen i.

Rheoli risgiau ac emosiynau yn gysylltiedig ag arian

DIOGELU FY ARIAN		
Rydw i'n gwybod bod risgiau ariannol yn gysylltiedig â gwario arian ar-lein, e.e. sgamiau a gwe-rwydo.	Rydw i'n gallu disgrifio rhai ffyrdd o gadw fy arian a'm gwybodaeth bersonol yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd, e.e. diogelu cyfrineiriau a rhifau PIN.	Rydw i'n deall rhai o ganlyniadau sgamiau ariannol a sut gallen nhw wneud i mi deimlo.
CYNILO A CHAEL BENTHYG		
Rydw i'n gwybod beth yw llog ac y gallai gael ei ychwanegu at arian rydw i'n ei gynilo ac yn cael ei fenthyg.	Rydw i'n gallu esbonio rhai o fanteision cynilo, a rhai o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chael benthyg arian.	Rydw i'n deall ei bod yn bwysig ystyried unrhyw risgiau a chanlyniadau posibl cyn cael benthyg arian, gan gynnwys yr effaith ar fy nheimladau i, a theimladau pobl eraill.

Deall rôl bwysig arian yn ein bywydau

CYSYLLTIADAU RHWNG GWAITH AC ARIAN		
Rydw i'n gwybod bod arian i'w ennill yn un ffactor a allai ddylanwadu ar ddewis swydd.	Rydw i'n gallu disgrifio'r modd y bydd cael swydd yn fy ngalluogi i gyflawni nodau penodol yn fy mywyd, gan gynnwys nodau ariannol.	Rydw i'n dechrau deall y bydd y dewisiadau rydw i'n eu gwneud am waith ac arian yn effeithio ar fy mywyd.
CYMUNEDAU EHANGACH		
Rydw i'n gwybod bod arian yn cael ei dynnu o enillion i ddarparu pethau sydd eu hangen ar bob un ohonom ni, e.e. trwy drethi ac Yswiriant Gwladol.	Rydw i'n gallu disgrifio rhai ffyrdd y mae'r llywodraeth yn defnyddio arian i ddarparu ar gyfer fy anghenion i, ac anghenion fy nghymuned leol.	Rydw i'n dechrau deall pam a sut mae rhywfaint o'r arian rydym ni'n ei ennill yn cefnogi'r gymuned ehangach.

GEIRFA:
Cyllideb, incwm, gwariant, bil, cyfriflen banc, peiriant arian, arian cyfred, cyfradd gyfnewid, defnyddiwr, hysbysebu, cymharu, rhad, drud, sêl, bargen, sgâm ariannol, gwe-rwydo, cyfrinair, rhif PIN, dyled y gellir ei rheoli, dyled na ellir ei rheoli, llog, cyflogau, cyflog, enillion, didyniadau, treth, Yswiriant Gwladol.

Allwedd i ddeilliannau dysgu: Gwybodaeth | Sgiliau | Agweddau

Gweledigaeth Ar y Cyd

Hwn yw'r trydydd rhifyn o'r Fframweithiau Cynllunio Addysg Ariannol, ac am y tro cyntaf, maen nhw'n cael eu cyflwyno fel fframwaith ar y cyd a gefnogir gan bob aelod o'r Grŵp Gallu Ariannol Ieuenctid (YFCG).

Caiff holl aelodau'r YFCG eu cynnwys mewn datblygu gallu ariannol plant a phobl ifanc i gefnogi'r Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y Deyrnas Unedig.

Sefydliad Bancio a Chyllid Llundain

Mae ystod o gymwysterau cyfatebol TGAU a Safon Uwch a ariennir yn llawn Sefydliad Bancio a Chyllid Llundain yn darparu addysg ariannol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n creu effaith ac yn gynaliadwy, gan ddarparu sgiliau ariannol am oes.

Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau

Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) yn gorff hyd braich y llywodraeth, a'i weledigaeth yw bod 'pawb yn gwneud y gorau o'u harian a'u pensiynau'. Mae MaPS yn arwain Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol sy'n cynnwys nod i sicrhau bod dwy filiwn yn fwy o blant a phobl ifanc yn cael addysg ariannol ystyrlon erbyn 2030.

The Money Charity

Elusen gallu ariannol y DU, sy'n cynnig Gweithdai Arian wyneb yn wyneb i ysgolion, cymorth i athrawon, gan gynnwys Pecynnau Adnodd Athrawon, a'r Llawlyfr Arian i Fyfyrwyr (Student Money Manual), sef canllaw arddull cylchgrawn i reoli arian yn y brifysgol.

MyBnk

Mae hyfforddwyr arbenigol MyBnk yn cyflwyno amrywiaeth o raglenni llawn egni sy'n creu effaith i blant a phobl ifanc 7 – 25 oed, gan gwmpasu testunau sy'n datblygu arferion arian cadarnhaol trwy gynilo, cyllidebu a pharatoi ar gyfer byw yn annibynnol.

Young Money

Mae Young Money (rhan o Fenter yr Ifanc) yn ddarparwr gwybodaeth, adnoddau a hyfforddiant ymddiriedus a gwerthfawr i unrhyw un sy'n addysgu pobl ifanc ynghylch sut i reoli arian.

Y Gwasanaeth Cynghori Addysg Ariannol
– cyngor a chymorth am ddim am addysg ariannol

Mae ein Gwasanaeth Cynghori yma i gynnig cyngor ac arweiniad am ddim i unrhyw un sy'n addysgu plant a phobl ifanc am arian. Mae ymgynghorwyr addysg arbenigol yn defnyddio eu profiad i roi cyngor ac arweiniad ymarferol am unrhyw agwedd ar addysg ariannol, gan gynnwys defnyddio'r Fframweithiau Cynllunio hyn.

Mae ein gwybodaeth yn cwmpasu pob sector addysg, yn ogystal â phynciau arbenigol ac anghenion addysgol arbennig. Hefyd, gallwn ni gynnig cyngor ar asesu ac effaith, gan gynnwys syniadau ar gyfer diwrnodau cyfoethogi a defnyddio gwirfoddolwyr gwasanaethau ariannol yn effeithiol.

Anfonwch neges e-bost atom, **i advisoryservice@y-e.org.uk** neu ffoniwch ni ar **0300 6660 127**, gan roi syniad i ni am yr hyn rydych chi eisiau ei gyflawni, neu'r hyn mae angen cymorth arnoch ag ef. Byddwn yn ceisio cysylltu â chi i gynnig gwybodaeth a syniadau ymarferol ymhen dau ddiwrnod gwaith. Wrth anfon neges e-bost, byddai'n fuddiol iawn pe gallech chi gynnwys cymaint o fanylion ag y bo modd am eich cais er mwyn i ni allu eich helpu cyn gynted ag y bo modd. Peidiwch â phoeni os nad ydych chi hyd yn oed yn siŵr beth rydych chi eisiau ei ofyn – rydym ni yma i helpu!

Marc Ansawdd Addysg Ariannol

Y Marc Ansawdd Addysg Ariannol yw'r unig system achredu a gydnabyddir yn eang yn y DU ar gyfer adnoddau addysg ariannol, ac mae ganddo rôl allweddol mewn cefnogi addysgu a dysgu addysg ariannol o ansawdd uchel ledled y DU.

Mae'r Marc Ansawdd wedi'i gynllunio i roi hyder i addysgwyr fod y deunyddiau addysg ariannol maen nhw'n eu defnyddio o'r gwerth addysgol uchaf, yn cynnwys gwybodaeth gywir a chyfoes, yn berthnasol i bobl ifanc, ac yn ennyn eu diddordeb. Gellir gweld holl adnoddau gweithredol y Marc Ansawdd yma: **www.young-money.org.uk/resources**

CYSYLLTIADAU

Young Enterprise
Coram Campus
41 Brunswick Square
London
WC1N 1AZ

www.young-money.org.uk

Ffôn. 020 7330 9470 / 0845 241 0925
E. info@y-m.org.uk
Dilynwch ni ar Twitter @YoungMoneyEdu

PRI-FWK-WL

Mae Menter yr Ifanc yn elusen gofrestredig.
Rhif cofrestredig 313697

Ymgorfforir yn Lloegr fel Cwmni Cyfyngedig trwy Warant Rhif. 712260

Menter YR IFANC
Aelod o Cyflawniad Ieuenctid Byd-eang

Yr Ifanc YR IFANC
Rhan o Fenter yr Ifanc